Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD BLAENOROL**

**Enw'r cyfarfod:** Grŵp Ymgynghorol Annibynnol
**Dyddiad:** 14 Hydref 2021
**Amser:** 10:30y.b.
**Lleoliad:** Skype

**Cadeirydd y Cyfarfod:** Derek Turner ar ran Rob Blowes.

| | |
|---|---|
| **Mynychwyr:-** | Derek Turner, Ymgynghorydd Annibynnol<br>Baba Gana, Ymgynghorydd Annibynnol<br>Paul Saunders, Ymgynghorydd Annibynnol<br>Patricia Rafique, Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain<br>Paul Lewis, Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain<br>Linda Elias, Swyddog Camfanteisio ar Blant, HDP<br>Gruff Ifan, SCHTh, HDP<br>Teleri Williams, Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg, HDP<br>Y Prif Arolygydd Thomas Sharville, Stopio a Chwilio, HDP<br>Karyn Howells, Uwch Reolwr AD, HDP<br>Sian Davies, Cymorth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, HDP |

| | |
|---|---|
| **Ymddiheuriadau:-** | Debra Croft, Ymgynghorydd Annibynnol<br>Rob Blowes, Ymgynghorydd Annibynnol<br>Novelette Childs, Ymgynghorydd Annibynnol |

| | |
|---|---|
| **Lliwiau'r Cynllun Gweithredu:** | Gwyrdd = Cwblhawyd<br><br>Ambr = Ar Waith<br><br>Coch = Heb Ei Gwblhau |

| Rhif | Cam Gweithredu/Penderfyniad Allweddol | Perchennog | Graddfa Amser | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|
| IAG/001/100621/A | RB i geisio barn y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Cenedlaethol mewn perthynas â hygyrchedd y Dewis IAP a rhoi diweddariad yng nghyfarfod nesaf y GYA . | Rob Blowes | Cyfarfod Nesaf | **Ar Waith** | Sian Davies i fynd ar ôl Rob Blowes am ddiweddariad. |
| IAG/002/141021/A | Cysylltu â phobl ifainc mewn cymunedau i gryfhau eu hyder yn yr heddlu. Pwysleisio nad ydynt yno i godi ofn ar bobl ifainc, ond i'w helpu.<br><br>Awgrymwyd y dylid cryfhau ymweliadau swyddog â Chymdeithas Diwylliant Islamaidd Gorllewin Cymru yn arbennig. | Sian Davies / Teleri Williams | Cyfarfod Nesaf | **Ar Waith** | Mae Sian Davies yn ymgysylltu â Bethan James er mwyn pennu swyddogion mwy addas ar gyfer cymunedau ieuenctid, megis swyddogion cyswllt ysgolion.<br><br>Sian Davies i ymgysylltu â Teleri Williams a Nia Rees i atgoffa SCYH am ymweld â phobl ifainc mewn cymunedau bach ac ymgysylltu mwy â nhw. |
| IAG/003/141021/I | Cyflwynodd Linda Elias ei dogfen Bregusrwydd Diogelu Atal Ymchwilio i'r grŵp.<br><br>Roedd gan bob aelod o'r grŵp feddwl mawr o'r ddogfen, ac roedd pob sylw a wnaed yn gadarnhaol. | ---- | --- | **----** | Er gwybodaeth y grŵp. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bydd y ddogfen hon ar gael i bob swyddog yn yr heddlu. | | | | |
| IAG/004/141021/A | Cododd aelod o’r GYA fater lle y teimlai nad oedd ymddygiad swyddog tuag ato’n broffesiynol.<br><br>Mynegwyd pryderon ynglŷn â’r hyfforddiant a roddir i swyddogion o ran sgiliau cyfathrebu a rhagfarn anymwybodol. | Sian Davies | Cyfarfod Nesaf | **Ar Waith** | Sian Davies i wirio pa hyfforddiant a roddir i swyddogion sy’n fyfyrwyr mewn perthynas â chyfathrebu’n barchus ac effeithiol â’r cyhoedd gyda Simon Tudor. |
| IAG/005/141021/A | Dywedodd Aelod y gallai’n Swyddog Gweithredu Cadarnhaol ymweld â Chymdeithas Ddiwylliannol Iddewig Gorllewin Cymru i roi gwybodaeth am broses recriwtio’r heddlu. | Sian Davies | Cyfarfod Nesaf | **Cwblhawyd** | Sian Davies i roi manylion cyswllt priodol i Nia Rees (Gweithredu Cadarnhaol). |
| IAG/006/141021/A | Cafwyd trafodaeth o gwmpas dangos darnau ffilm camera corff eto yng nghyfarfodydd y GYA. | Sian Davies / y Prif Arolygydd Tom Sharville | Cyfarfod Nesaf | **Ar Waith** | Sian Davies i gysylltu â TG i weld pa un ai a oes modd inni wylio’r darnau ffilm eto. |
| IAG/007/141021/I | Mae arolygwyr nawr yn cael mynediad at ddarnau ffilm camera corff swyddogion i sicrhau eu bod nhw’n cael eu gweithredu bob tro y cynhelir proses stopio a chwilio.<br><br>Hefyd, nid oedd pob swyddog yn hyderus ynghylch y broses Stopio a | ---- | ---- | **----** | Er gwybodaeth y grŵp. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Chwilio. Gan hynny, mae cynlluniau mentora newydd wedi'u sefydlu er mwyn helpu i gryfhau ansawdd achosion stopio a chwilio swyddogion. | | | | |
| IAG/008/141021/I&A | Roedd y grŵp yn fodlon â'r cylch gorchwyl ar gyfer y GYA. | Sian Davies | Cyfarfod nesaf | **Ar Waith** | Bydd Sian Davies yn lanlwytho'r cylch gorchwyl newydd i wefan a mewnrwyd yr heddlu. |
| IAG/009/141021/I | Mae HDP yn gweithio'n galed i wella amrywiaeth yn yr heddlu drwy:<br>- Gael Swyddog Gweithredu Cadarnhaol.<br>- Cael swyddogion Ymgysylltu Cymunedol.<br>- Mae ap wedi'i greu yn awr fel bod swyddogion yn medru nodi manylion pobl yn syth os oes ganddynt ddiddordeb mewn dod yn gwnstabl heddlu. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hanfon at swyddog gweithredu cadarnhaol yr heddlu'n syth er mwyn iddi ddilyn y mater.<br>- Mae SCCH a SYCH yn targedu hysbysebu recriwtio | ---- | ---- | **----** | Er gwybodaeth y grŵp. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | yn y cymunedau amrywiol. | | | | |
| IAG/010/141021/A | Holodd y grŵp am ffigurau ar gyfer nifer yr unigolion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu stopio a'u chwilio. | Y Prif Arolygydd Thomas Sharville | Cyfarfod Nesaf | **Ar Waith** | Y Prif Arolygydd Tom Sharville i ymchwilio i'r ffigurau a'u rhannu yn y cyfarfod nesaf. |
| IAG/011/141021/A | Mae'r Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg yn creu fideo ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar gyfer ein swyddogion a'n staff i'w haddysgu a gwella dealltwriaeth am ein cymunedau. Yr ydym yn chwilio am wirfoddolwyr parod i gymryd rhan yn y fideo.<br><br>Gwybodaeth ynglŷn â'r fideo i'w rhannu ymysg aelodau'r GYA. | Teleri Williams / Sian Davies | Cyfarfod Nesaf | **Cwblhawyd** | Sian Davies i rannu gwybodaeth am y fideo ymwybyddiaeth ddiwylliannol. |
| IAG/012/141021/I | Mae'r tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cysylltu â'r Uned Cymorth Busnes cyn pob cyfarfod GYA i holi pa un ai a oes modd inni gynnal y cyfarfodydd ym Mhencadlys yr Heddlu neu os oes angen inni barhau i'w cynnal yn rhithwir oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Bydd Sian Davies yn parhau i holi UCB – AD cyn cyfarfodydd yn y dyfodol. | ---- | ---- | **----** | Er gwybodaeth y grŵp. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| IAG/013/141021/I&A | Â phleser mawr, cyhoeddwn fod y GYA wedi'i enwebu ar gyfer Gwirfoddolwr y Flwyddyn yng ngwobrau blynyddol yr heddlu.<br><br>Rhoddir manylion y seremoni wobrwyo i'r grŵp. | Sian Davies | Cyfarfod Nesaf | **Cwblhawyd** | Sian Davies i rannu manylion y seremoni wobrwyo i'r GYA. |
| IAG/014/141021/A | Mae un aelod o'r GYA fel arfer yn mynd i'r cyfarfodydd Iechyd Meddwl Strategol, fodd bynnag, nid yw'r aelodau wedi derbyn gwahoddiad ers cryn amser. | Sian Davies | Cyfarfod Nesaf | **Ar Waith** | Sian Davies i gysylltu â'r Cydlynydd Iechyd Meddwl i ofyn pa un ai a allai gwahoddiad gael ei anfon ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. |
| IAG/015/141021/I | Dywedodd aelod nad oes dehonglydd yn bodoli rhagor a bod Fideo Arwyddo ar gael 24/7. | ---- | ---- | **----** | Er gwybodaeth y grŵp. |

**Cyfarfod Nesaf:**

27 Ionawr 2022